# Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar

Addysg Grefyddol (CYSAG)

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

## Adroddiad Blynyddol 2024-25

**(Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English)**

| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| **NEGES GAN GADEIRYDD CYSAG/CYS BRO MORGANNWG** | **3** |
| **ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG/CYS** | |
| 1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG/CYS | **4** |
| 1.2Cyfansoddiad CYSAG/CYS | **4** |
| 1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS | **4** |
| 1.4 Swyddogaethau CYSAG/CYS | **4** |
| 1.5 Cofnodion Cyfarfodydd | **5** |
| 1.6 Dosbarthu'r Adroddiad | **5** |

| | |
|---|---|
| **ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL A CHREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG** | |
| 2.1 Y Maes Llafur Cytunedig Lleol | **6** |
| 2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol (AG), Astudiaethau Crefyddol (AstC) a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) | **6** |
| 2.3 Cwricwlwm | **7** |
| 2.4 Dysgu Proffesiynol ac Adnoddau i Ymarferwyr | **8** |
| 2.5 Ymweliadau Ysgol | **9** |
| **ADRAN 3: CYNGOR AR Y WEITHRED DDYDDIOL O GYDADDOLI** | |
| 3.1 Adroddiadau Arolygon Ysgol | **11** |
| 3.2 Ceisiadau ar gyfer Pennu | **12** |
| 3.3 Ymweliadau Ysgol | **12** |
| **ADRAN 4: CRYNODEB O FEYSYDD ERAILL** | |
| 4.1 CCYSAGauC | **13** |
| 4.2 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) | **13** |
| 4.3 Hyfforddi Aelodau CYSAG/CYS | **13** |
| 4.4 Llais Ieuenctid ar gyfer CGM, AG, AC a Chydaddoli Dyddiol | **14** |

| | |
|---|---|
| **ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG/CYS 2024-2025** | **15** |
| **ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA CYFARFODYDD** | **17** |
| **ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD** | **23** |
| **ATODIAD 4: CYFANSODDIAD CYSAG/CYS BRO MORGANNWG** | **4** |
| **ATODIAD 5: DYSGU PROFFESIYNOL, ADNODDAU A DEUNYDDIAU WEDI'U RHANNU AG YMARFERWYR** | **29** |

## NEGES GAN GADEIRYDD CYSAG/CYS BRO MORGANNWG 2024-2025

Mae'n fraint cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Bro Morgannwg ar Addysg Grefyddol a'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYSAG/CYS) eleni. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o gydweithio gwirioneddol, cyd-bwrpas, a myfyrio — i gyd er mwyn helpu ein dysgwyr i archwilio beth mae'n ei olygu i fyw gyda'n gilydd gyda dealltwriaeth, chwilfrydedd a pharch mewn byd sy'n newid yn barhaus.

Wrth i ysgolion barhau i ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar gefnogi athrawon i greu profiadau ystyrlon o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ac Addysg Grefyddol (AG) a'u helpu i baratoi ar gyfer y cwrs TGAU newydd mewn Astudiaethau Crefyddol (AstC). Mae'r pynciau hyn yn chwarae rhan mor bwysig wrth helpu pobl ifanc i feddwl yn feirniadol, gwerthfawrogi gwahaniaeth, a datblygu tosturi — rhinweddau y mae eu hangen ar ein cymdeithas nawr yn fwy nag erioed.

Un o'r datblygiadau mwyaf ysbrydoledig eleni oedd sefydlu'r Fforwm Llais Ieuenctid traws-ranbarthol, gan glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am eu profiadau a'u gobeithion ar gyfer CGM. Mae eu cyfraniadau wedi ein hatgoffa nad yw addysg yn ymwneud â gwybodaeth yn unig, ond yn ymwneud â magu hyder, empathi, ac ymdeimlad o berthyn.

Rydym hefyd wedi parhau i hyrwyddo dysgu proffesiynol a rhannu arfer da ar draws ein hysgolion. Mae ymarferwyr wedi gallu rhannu syniadau gyda'i gilydd, archwilio dulliau newydd, a chadw CGM wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru. Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu eu hamser a'u hangerdd at yr ymdrech gyfunol hon.

Diolch o galon i bob un o aelodau CYSAG/CYS am eu hymrwymiad a'u trafodaethau meddylgar drwy gydol y flwyddyn. Ein cryfder ni fel grŵp yw amrywiaeth ein safbwyntiau a'n meddwl agored wrth ystyried ein cyd-bwrpas. Rydym yn gobeithio ehangu'r CYSAG/CYS dros y flwyddyn nesaf gyda rhagor o gynrychiolwyr o grwpiau ffydd a chred eraill, ynghyd â rhagor o athrawon. Hoffwn hefyd estyn fy ngwerthfawrogiad diffuant i'n Clerc, Francesca Wright, y mae ei threfniadaeth ofalus yn cadw ein gwaith yn rhedeg yn esmwyth, ac i'n Hymgynghorydd, Donna Graves, y mae ei harbenigedd a'i charedigrwydd yn parhau i'n harwain ymlaen.

Wrth i ni edrych at y flwyddyn i ddod, bydd CYSAG/CYS yn parhau i wrando, dysgu a gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pob ysgol i sicrhau bod CGM ac AG yn rhan ddifyr o fywydau dysgwyr. Rydym yn wynebu'r her o niferoedd gostyngol o fyfyrwyr yn astudio Astudiaethau Crefyddol ar lefel TGAU a Safon Uwch, ond byddwn yn gweithio gydag ysgolion fel blaenoriaeth i nodi sut y gall plant ymgysylltu'n fwy yn y maes astudio hollbwysig hwn. Trwy annog chwilfrydedd, caredigrwydd a myfyrdod, gobeithiwn gyfrannu — yn ein ffordd ein hunain — at gymuned fwy deallus a chysylltiedig yma ym Mro Morgannwg.

Kathy Riddick
Cadeirydd CYSAG / CYS
Bro Morgannwg

Mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg yn croesawu gohebiaeth drwy'r clerc, Francesca Wright: **fwright@valeofglamorgan.gov.uk**

## ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG/CYS

### 1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG/CYS

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn eu hardal leol. Bydd CYSAG a CYS Bro Morgannwg yn rhannu aelodaeth ac yn cyfarfod fel un corff gydag un cyfansoddiad/Cylch Gorchwyl.

### 1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS

Penderfynir ar aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) gan Ddeddfau Addysg 1944 a 1993, a Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei bennu gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 yng Nghymru. Mae gan CYSAG/CYS dri grŵp cyfansoddol: mae gan bob grŵp hawl i un bleidlais:

- bydd aelodau a benodwyd i'r grŵp i gynrychioli crefydd, enwad neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol, i'r graddau y mae'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r grŵp yn effeithlon, yn adlewyrchu'n fras gryfder cymesur y grefydd, enwad neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal

- cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon/ymarferwyr

- yr awdurdod lleol.

### 1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS

Rhestrir yr Aelodau sy'n cynrychioli pob un o'r grwpiau hyn ar gyfer 2024-2025 yn Atodiad 1.

### 1.4 Swyddogaethau CYSAG/CYS

Prif swyddogaeth CYSAG/CYS yw:

- cynghori'r awdurdod lleol am addysg grefyddol (AG), crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM), astudiaethau crefyddol (AstC) a'r weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD)

- argymell bod yr awdurdod lleol yn adolygu'r maes llafur cytunedig drwy gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig

- ystyried ceisiadau gan ysgolion ar gyfer penderfyniadau (i'w heithrio rhag y gofyniad bod addoli i fod “yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol cyffredinol”)

- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith

- chwarae rhan yn y weithdrefn gwyno statudol leol lle mae achosion sy’n ymwneud ag AG, CGM, AstC a CAD.

Gall cyngor i’r awdurdod lleol ymwneud ag:

- addysgeg
- y dewis o adnoddau addysgu
- darparu dysgu proffesiynol
- unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag AG, AstC, CGM a CAD y mae CYSAG/CYS yn ei ystyried yn briodol.

## 1.5 Cofnod o gyfarfodydd

Yn ystod 2024-2025, cynhaliwyd un o’r tri chyfarfod wyneb yn wyneb:

- Dydd Mercher 13 Tachwedd 2024 am 3:45pm
- Dydd Mercher 26 Mawrth 2025 am 4:00pm
- Dydd Mercher 18 Mehefin 2025 am 4:00pm.

Mae cofnod o brif eitemau’r agenda a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd yn Atodiad 2.

## 1.6 Dosbarthu’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn wedi eu dosbarthu i’r sefydliadau a restrir yn Atodiad 3.

## ADRAN 2: CYNGOR A RODDWYD GAN CYSAG/CYS AR ADDYSG GREFYDDOL (AG), ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (ASTC) A CHREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM)

### 2.1 Y meysydd llafur cytunedig lleol

Ym mis Chwefror 2022, ail-fabwysiadodd yr awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig etifeddol ar gyfer AG. Yn 2022, cytunodd awdurdod lleol Bro Morgannwg ar faes llafur newydd ar gyfer CGM, dan y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae copïau o'r ddau faes llafur cytunedig ar gael ar wefan y cyngor, gwefan GACCCD (CCD o fis Medi 2025) a chan glerc CYSAG/CYS.

### 2.2 Safonau mewn addysg grefyddol (AG), astudiaethau crefyddol (AstC) a chrefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM)

Mae CYSAG/CYS yn rhoi cyngor i'r awdurdod lleol ar safonau mewn AG/AstC/CGM. Mae CYSAG/CYS wedi archwilio ffyrdd i ystyried safonau mewn AstC a CGM:

- Mae CYSAG/CYS yn adolygu adroddiadau arolygu Estyn i nodi a rhannu arfer effeithiol ac i gefnogi ysgolion gydag AG, CGM, datblygiad Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol a'r weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD). Yn 2024-25, ystyriwyd canfyddiadau arolygon dwy ar bymtheg o ysgolion cynradd, dwy ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig gan CYSAG/CYS. Gwnaed sylwadau cadarnhaol gan Estyn sy'n berthnasol i AG a CGM ynghyd â darparu Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol a CAD. Roedd CYSAG/CYS yn falch o nodi sylwadau cadarnhaol a gofnodwyd gan Estyn. Mae CYSAG/CYS wedi anfon llythyrau o longyfarchiadau neu gynigion o gefnogaeth i ysgolion unigol, yn dilyn cyhoeddi eu hadroddiad Arolwg Estyn. Mae CYSAG/CYS wedi parhau i godi pryderon bod newidiadau i adroddiadau Estyn wedi ei gwneud hi'n anoddach i CYSAG/CYS fonitro safonau ym maes Addysg Grefyddol/CGM, fel y mae'n ofynnol, yn ôl deddfwriaeth, i'w wneud fel un o'r swyddogaethau sy'n ofynnol gan CYSAG/CYS. Codwyd y pryderon hyn gyda CCYSAGauC, Estyn, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau'n parhau o ran monitro'r ddarpariaeth cwricwlwm, addysgeg a safonau yn y meysydd hyn.

- Trafododd CYSAG/CYS niferoedd mynediad a chanlyniadau arholiadau AstC ar gyfer ysgolion yn yr awdurdod lleol, yn unol â chyngor CCYSAGauC. Trafododd CYSAG/CYS ddata DDdY ar gyfer Astudiaethau Crefyddol yn yr awdurdod lleol ar gyfer cymwysterau CBAC yn 2023-2024. Trafodwyd tueddiadau a chodwyd cwestiynau gan ganolbwyntio ar niferoedd mynediad a chanlyniadau. Mae'r data'n dangos gostyngiad yn y nifer sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch. Mae darfyddiad y cwrs byr TGAU wedi cyfrannu at y broblem hon, ac ni fydd hwn yn cael ei ailgyflwyno. Nid yw data ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn rhai CBAC yn hygyrch i'r awdurdod lleol e.e. Agored Cymru 'Archwilio Bydolygon' neu NCFE Lefel 2 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth'. Nid yw manylion ynghylch safonau a darpariaeth AG gorfodol nad ydynt yn cael eu harholi wedi bod ar gael i CYSAG/CYS, ac eithrio'r hyn a gyfeiriwyd ato mewn adroddiadau gan Estyn. Mae'r rhwystrau hyn wedi llesteirio golwg gynhwysfawr ar safonau ar gyfer 2024-2025.

- Mae CYSAG/CYS yn annog cydweithio rhwng ysgolion i nodi a chefnogi arfer da. Anogodd y fforwm Llais Ieuenctid GACCCD/GCA ar gyfer CGM, AG, AstC a CYSAG/CYS gydweithio pellach, rhannu arfer da a gwrando ar lais dysgwyr i lywio ymarferwyr, ysgolion/lleoliadau a CYSAG/CYS.

Mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg wedi parhau i argymell yr adnoddau canlynol i ymarferwyr, penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion:

Cyhoeddiadau Estyn:

- Sut rydym yn arolygu ar gyfer arolygiadau o 2023
- Beth rydym yn ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2023
- Adroddiad Blynyddol 2023-2024
- Adnoddau Gwella Estyn.

Ar gyfer darpariaeth 'AG' i ddysgwyr sy'n astudio'r cwricwlwm etifeddol cyn hir:

- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (Estyn, Mehefin 2013)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (Estyn, Mehefin 2018)
- Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru.

## 2.3 Cwricwlwm

**Cwricwlwm i Gymru (CiG)**

Mae aelodau CYSAG/CYS Bro Morgannwg wedi cael diweddariadau tymhorol a chyngor manwl gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/CGM/AstC a CYSAG/CYS ynghylch datblygiadau'r cwricwlwm. Mae CYSAG/CYS wedi parhau i gynghori bod pob ysgol yn cael gwybod am y gofyniad i roi sylw i faes llafur cytunedig lleol Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r canllawiau CGM statudol ar Hwb. Mae CYSAG/CYS wedi parhau i gynghori bod pob ysgol yn cael ei hatgoffa nad oes hawl gan rieni i dynnu'n ôl o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae GACCCD wedi llunio adnoddau i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut maen nhw'n bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer CGM o fewn Cwricwlwm i Gymru (dolen).

Mae CYSAG/CYS wedi llunio canllawiau i siaradwyr gwadd a darparwyr allanol, i gefnogi penaethiaid ac ymarferwyr CGM o fewn yr awdurdod lleol.

Mae CYSAG/CYS wedi trafod y cwrs AstC TGAU newydd (i'w addysgu o fis Medi 2025) a chymwysterau sgiliau ehangach (i'w haddysgu o fis Medi 2027). Mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai'r cymwysterau newydd yn diwallu anghenion pob dysgwr ac yn unol â chwricwlwm CGM CaW. Mynegwyd safbwyntiau. Cefnogodd GACCCD ysgolion gyda chyngor a thrwy hwyluso cyfarfod rhwydwaith ar gyfer ymarferwyr TGAU uwchradd y TGAU newydd ar 23 Mehefin 2025. O'r un ar ddeg o ysgolion a fynychodd, roedd tair o awdurdod lleol Bro Morgannwg.

**Cwricwlwm AG/AstC ar gyfer Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13**

Cadarnhaodd CYSAG/CYS y cwricwlwm a gofynion yr hawl i dynnu'n ôl ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac uwch sy'n derbyn AG yn unol â'r maes llafur cytunedig etifeddol. Mae'r hawl i dynnu'n ôl yn dal i fod ar waith ar gyfer y dysgwyr hyn. Roedd canllawiau CCYSAGauC ar yr hawl hon wedi'u dosbarthu'n flaenorol gan CCYSAGauC/CYSAG/CYS i bob ysgol/lleoliad: Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol, 2017.

Trafododd CYSAG/CYS dueddiadau cenedlaethol o ran y niferoedd sydd wedi sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch ers 2017. Mae'r CCYSAGauC a'r PYCAG yn rhannu'r pryderon ynghylch llai o gofrestriadau. Mynegwyd pryderon hefyd am hygyrchedd y cymhwyster AstC presennol. Trafododd CYSAG/CYS ostyngiadau mewn mynediad ar gyfer TGAU AstC yng Nghymru, yr amser cwricwlwm a ddyrannwyd i gymwysterau TGAU mewn ysgolion, a brwdfrydedd ymarferwyr dros gadw opsiwn AstC cwrs byr. Cynghorodd CYSAG/CYS ymarferwyr i ymgysylltu â grwpiau cynghori CBAC i drafod y cymhwyster newydd ar gyfer 2025, gan eu hatgoffa o'u cyfleoedd i fynegi eu barn i swyddog pwnc CBAC a Chymwysterau Cymru.

## 2.4 Dysgu proffesiynol ac adnoddau i ymarferwyr

Mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg wedi parhau i ddarparu deunyddiau ategol sy'n gysylltiedig â maes llafur cytunedig yr awdurdod lleol. Diweddarwyd y rhain ym mlwyddyn academaidd 2024-2025. Mae'r adnodd hwn yn ddogfen waith 'fyw' sy'n adlewyrchu esblygiad y Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, mae CYSAG/CYS wedi creu a rhannu dogfen 'Canllawiau ar gyfer Siaradwyr Gwadd ac Ymweliadau i Ysgolion a Lleoliadau Bro Morgannwg'. Roedd canllawiau a chyngor pwrpasol pellach i ysgolion ar gael gan CYSAG/CYS a GACCCD.

Mae CYSAG/CYS yn dal i gydnabod ac yn cefnogi'r ystod eang o adnoddau dysgu proffesiynol a chyfleoedd rhannu a ddarperir gan CBAC, CCYSAGauC a GACCCD ar gyfer ymarferwyr AG, AstC a CGM, ac mae wedi annog ysgolion i ymgysylltu â'r cynnig hwn a chael mynediad ato.

Mae GACCCD, fel darparwr rhanbarthol gwasanaethau gwella ysgolion a chymorth dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymarferwyr, wedi darparu ystod eang o raglenni dysgu proffesiynol, deunyddiau a dulliau a rennir ag ysgolion yn yr awdurdod lleol. Mae GACCCD, trwy ymgynghorydd CYSAG/CYS, wedi rhannu diweddariadau ar gyfer yr holl ddysgu proffesiynol perthnasol, cyfarfodydd rhwydwaith a dolenni i adnoddau â CYSAG/CYS trwy bapurau briffio tymhorol CYSAG/CYS a diweddariadau ym mhob cyfarfod.

Mae GACCCD yn darparu cyfleoedd rhwydweithio a rhannu tymhorol i ymarferwyr uwchradd a chynradd, dan arweiniad ymarferwyr mewn ysgolion a staff GACCCD. Roedd cyfleoedd rhwydweithio uwchradd yn canolbwyntio ar rannu arfer yn ymwneud â safonau ar lefel TGAU, cwrs 'Archwilio Bydolygon' Agored Cymru, CGM ym maes profiad dysgu (MDaPh) y dyniaethau, a datblygu cysylltiadau â phynciau/MDaPhau eraill. Yn y cyfarfodydd hyn, mae ysgolion wedi rhannu eu dulliau o ran dylunio'r cwricwlwm, dilyniant a chynllunio ar gyfer y cymhwyster TGAU AstC newydd, a ddechreuodd ym mis Medi 2025. Canolbwyntiodd brif gyfleoedd y rhwydwaith ar ddylunio cwricwlwm CGM a'r dyniaethau, rhannu arfer da a chydweithio wrth ddatblygu adnoddau. Mae gan GACCCD rwydwaith ar gyfer

ysgolion arbennig ac UCDau. Canolbwyntiodd cyfarfodydd ar ddylunio'r cwricwlwm dyniaethau a CGM, gan rannu arferion da a chydweithio wrth ddatblygu adnoddau.

Mae GACCCD yn darparu, heb unrhyw gost i ysgolion, cymorth pwrpasol i ysgolion/lleoliadau'r awdurdod lleol ar gais. Darparwyd cymorth pwrpasol ar gyfer CGM, yn ogystal â'r dyniaethau a CGM, i wyth ysgol/lleoliad ym Mro Morgannwg yn 2024-25. Roedd prif feysydd y cymorth yn cynnwys:

- cynllun y cwricwlwm o ran CGM
- cynllunio unedau gwaith ar gyfer CGM/dyniaethau
- gweithio mewn clystyrau a chydweithio ar gyfer CGM/dyniaethau
- arweinyddiaeth CGM/AstC gan gynnwys hunanwerthuso
- y weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD)
- addysgeg.

Mae GACCCD wedi cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu proffesiynol, prosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â CGM/AstC/AG, fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol Dyniaethau GACCCD. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael i bob ymarferydd ym Mro Morgannwg. Mae enghreifftiau o'r ystod o ddysgu proffesiynol, adnoddau a deunyddiau a ddatblygwyd ac a rennir i gefnogi ysgolion gan GACCCD a CYSAG/CYS i'w gweld yn Atodiad 6.

Ymgysylltiad awdurdod lleol Bro Morgannwg â data dysgu proffesiynol y dyniaethau/CGM 2024-2025:

| Cyfle Dysgu Proffesiynol | Cyfanswm yr Ymgysylltiadau | Nifer yr Ysgolion |
|---|---|---|
| Dyniaethau (gan gynnwys CGM) | 32 | 19 |
| CGM cyfan gan gynnwys Cyfarfod Rhwydwaith | 14 | 11 |
| CGM ac eithrio Cyfarfod Rhwydwaith | 8 | 7 |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith AstC Uwchradd | 6 | 4 |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Dyniaethau Cynradd (gan gynnwys CGM) | 2 | 2 |

Crynodeb o ddata dysgu proffesiynol dyniaethau/CGM GACCCD ar gyfer y rhanbarth:

| Cyfle Dysgu Proffesiynol | Cyfanswm yr Ymgysylltiadau | Ymgysylltiadau Ysgolion CCD | Nifer yr Ysgolion CCD a Ymgysylltodd |
|---|---|---|---|
| Dyniaethau (gan gynnwys CGM) | 233 | 224 | 121 |
| CGM cyfan gan gynnwys Cyfarfodydd Rhwydwaith | 83 | 82 | 59 |
| CGM ac eithrio Cyfarfodydd Rhwydwaith | 56 | 55 | 43 |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith AstC Uwchradd | 27 | 27 | 16 |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Dyniaethau Cynradd | 22 | 21 | 20 |

## 2.5 Ymweliadau Ysgol

Mae CYSAG/CYS wedi ymweld ag un ysgol gynradd, a gynhaliodd y cyfarfod hybrid yn ystod yr haf ac a ddarparodd gyflwyniad craff yn amlinellu eu datblygiadau o ran eu cwricwlwm CGM a dilyniant dysgwyr. Mae copi troslais a recordiwyd o'u cyflwyniad ar gael ar wefan GACCCD, trwy ardal gymunedol y dyniaethau cynradd.

Mae CYSAG/CYS wedi trafod yr opsiwn i anfon arolwg i gael gwybodaeth am ddarpariaeth a chymwysterau ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 10 ac 11 o fewn yr awdurdod lleol. Ystyriwyd arolwg drafft gan CYSAG/CYS.

Mae CYSAG/CGM wedi mynegi bwriad i barhau i ymweld ag ysgolion i archwilio ac arsylwi arferion sy'n gysylltiedig â CGM, AG ac AstC yn 2025-2026, gyda'r nod o gefnogi ymarferwyr, penaethiaid a llywodraethwyr.

## ADRAN 3: CYNGOR AR Y WEITHRED DDYDDIOL O GYDADDOLI

Mae Cylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig yn nodi y dylai'r awdurdod addysg lleol weithio gyda CYSAG/CYS i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer y weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD) a dylai ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellir eu cymryd i wella'r ddarpariaeth o'r fath.

Trafododd CYSAG/CYS gyngor ar CAD a derbyniodd wybodaeth am drafodaethau yn CCYSAGauC a PYCAG ynghylch ymholiadau am yr hawl i dynnu'n ôl. Rhoddwyd cyngor i ysgolion unigol ym Mro Morgannwg gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD. Trafododd CYSAG/CYS ymholiadau a phryderon rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn.

Creodd a rhannodd CYSAG/CYS ddogfen yn darparu canllawiau ar CAD i ysgolion/lleoliadau ac yn cynnig polisi CAD generig i ysgolion unigol ei addasu i'w wneud yn addas ac yn berthnasol i'r ysgol/lleoliad hwnnw.

Hwylusodd GACCCD sesiynau 'galw heibio' ar gyfer CAD. Roedd ysgolion unigol a grwpiau o ysgolion ym Mro Morgannwg yn gallu trefnu cyfarfodydd yn annibynnol i dderbyn cymorth pwrpasol ar gyfer CAD.

Gwnaethpwyd CYSAG/CYS ac ysgolion yn yr awdurdod lleol yn ymwybodol o ganllawiau ychwanegol ar gyfer CAD trwy rwydweithiau GACCCD, dysgu proffesiynol, ac ardaloedd cymunedol:

- Canllawiau atodol: cydaddoli mewn ysgolion anenwadol 2017
- CCYSAGauC - Canllawiau ar dynnu disgyblion yn ôl o gydaddoli, Hydref 2021
- Estyn, Canllawiau atodol: cydaddoli mewn ysgolion anenwadol, 2013
- Adnodd GACCCD,'Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd: Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol', 2024
- Adnodd GACCCD, 'Dolenni i Adnoddau CAD', 2024

### 3.1 Adroddiadau Arolygon Ysgol

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i gefnogi ysgolion i gyflawni eu gofynion statudol ar gyfer CAD. Mae CYSAG/CYS wedi monitro adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer argymhellion sy'n ymwneud â CAD ac Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac mae'r Awdurdod Lleol yn mynd ar drywydd unrhyw ddiffyg cyflawni gofynion statudol drwy ofyn am gynllun gweithredu'r ysgol.

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i hysbysu ysgolion am wybodaeth ac adnoddau priodol sy'n ymwneud â CAD. Mae GACCCD wedi llunio adnodd, sydd ar gael ar eu gwefan, CAD: Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol. Pan fydd materion neu argymhellion yn cael eu hamlygu gan Estyn ynghylch CAD, mae'r awdurdod lleol yn mynd ar drywydd y rhain.

### 3.2 Ceisiadau i’w penderfynu arnynt

Rhaid i gydaddoli fod o natur Gristnogol ar y cyfan. Mae'r weithdrefn benderfynu yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r holl ddisgyblion/dysgwyr mewn ysgol lle bernir eu bod yn amhriodol. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion yn awdurdod lleol Bro Morgannwg ar gyfer penderfyniadau yn 2024-25.

### 3.3 Ymweliadau Ysgol

Mae CYSAG/CYS wedi mynegi bwriad i weld arfer yn gysylltiedig â CAD yn 2025-2026.

## ADRAN 4: CRYNODEB O FEYSYDD ERAILL

### 4.1 Cymdeithas CYSAGau/CYSau Cymru (CCYSAGauC)

Mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg yn parhau i gefnogi gwaith CCYSAGauC ac yn cydnabod gwerth y corff wrth hyrwyddo AG, AstC, CGM a CAD yn genedlaethol. Cynhelir trafodaethau llawn yn CYSAG/CYS ar y materion a godwyd gan CCYSAGauC. Yn CYSAG/CYS Bro Morgannwg, caniateir i bedwar aelod fynychu, gan gynnwys ymgynghorydd CYSAG/CYS. Rhannwyd manylion arolwg 'Prosiect Llais yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru' CCYSAGauC gyda CYSAG/CYS ac ysgolion/lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol. Mae Cadeirydd CYSAG/CYS Bro Morgannwg yn aelod gweithredol o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC, ac mae ymgynghorydd CYSAG/CYS wedi'i enwebu gan CYSAG/CYS Merthyr Tudful i ymuno â'r Pwyllgor Gweithredol, gan ddechrau ym mis Medi 2025.

### 4.2 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)

Cynrychiolwyd CYSAG/CYS yn llawn ar PYCAG gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/AstC/CGM a CYSAG/CYS. Mae Ymgynghorydd CYSAG/CYS Bro Morgannwg wedi'i benodi'n Is-gadeirydd PYCAG o haf 2025 ymlaen. Mae CYSAG/CYS wedi cael gwybod am ddatblygiadau ledled Cymru ac mae wedi chwarae rhan allweddol wrth lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar AG/CGM/AstC. Mae'r PYCAG wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, ac ar ddatblygu'r canllawiau statudol ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae CYSAG/CYS hefyd wedi derbyn gwybodaeth gan Estyn a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â CGM. Mae'r ymgynghorydd CYSAG/CYS wedi'i benodi'n is-gadeirydd PYCAG, gan ddechrau yn nhymor yr haf, 2025.

### 4.3 Hyfforddi Aelodau CYSAG/CYS

Fel rhan o hyfforddiant i aelodau, mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg wedi:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ym maes AG/AstC/CGM a CAD drwy bapurau briffio, cyflwyniadau, trafodaethau a chyngor rheolaidd gan GACCCD
- gwahodd aelodau i gyfarfodydd tymhorol Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)
- sicrhau bod y CYSAG/CYS yn cael ei gynrychioli yn CCYSAGauC a bod aelodau'n derbyn adborth rheolaidd
- annog aelodau newydd i wylio recordiad o weminar CCYSAGauC i aelodau newydd o CYSAG/CYS yng Nghymru (cyfrinair ar gael gan Glerc CYSAG/CYS), a hwylusir gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer CGM/AG/AstC, a Phartner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ar gyfer CGM
- rhannu sesiynau hyfforddi gweminar ar-lein am ddim gyda Chymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CGCYSAG)
- rhannu llawlyfr CCYSAGauC ar gyfer aelodau newydd CYSAG/CYS.

## 4.4 Llais Ieuenctid ar gyfer CGM, AG, AstC a CAD

Mae CYSAG/CYS wedi cefnogi sefydlu a threialu cynrychiolaeth ieuenctid trwy fforwm Llais Ieuenctid traws-ranbarthol ar gyfer CGM/AG/AstC a CYSAG/CYS. Mae CYSAG/CYS wedi bod yn gefnogol i'r prosiect ac wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r ymgynghorydd GACCCD i ystyried y ffordd orau o sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Sefydlwyd fforwm Llais Ieuenctid CGM, AG ac AstC a CAD, a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Gorffennaf 2024. Ers llwyddiant y cyfarfod peilot hwn, cynhaliwyd cyfarfodydd tymhorol yn ystod 2024-2025. Cynrychiolwyd ysgolion Bro Morgannwg ar y fforwm, ac mae dysgwyr o'r awdurdod lleol wedi cyfrannu eu barn a'u profiadau o AG/AstC/CGM/CAD. Rhannwyd adborth gan y fforwm Llais Ieuenctid gyda CYSAG/CYS mewn cyfarfodydd.

## ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG/CYS BRO MORGANNWG 2024-25

### GRŴP A ENWADAU CRISTNOGOL, SEFYDLIADAU CREFYDDOL AC ANGHREFYDDOL ERAILL - 12 LLE FEL Y NODWYD

| Sefydliad | Cynrychiolydd presennol |
|---|---|
| Yr Eglwys yng Nghymru | Paul Booth |
| Catholig | Bernadette Vella-Jones |
| Eglwys y Bedyddwyr | Elaine Holley<br>Y Parch Phillip Hibbert |
| Baha'i | Swydd wag |
| Bwdhydd | Swydd wag |
| Hindw / Sanatana Dharma | Kalpana Natarajan |
| Iddew | Norma Glass |
| Islamaidd | Moawia Bin-Sufyan |
| Sikhi | Swydd wag |
| Dyneiddiwr | Kathy Riddick (Cadeirydd ers gwanwyn 2025) |
| Crefydd, enwad neu gred anghrefyddol arall heblaw'r rhai a nodir uchod | |
| Swydd wag | Swydd wag |
| Swydd wag | Swydd wag |

### GRŴP B CYMDEITHASAU'N CYNRYCHIOLI ATHRAWON - 8 LLE

| Sefydliad | Cynrychiolydd presennol |
|---|---|
| NASUWT | Jean-Marc Alter |
| NASUWT | Tyler Saunders (Is-gadeirydd) |
| NAHT | Rebecca Morteo |
| NEU | Lyndsey Evans |
| Swydd wag | Swydd wag |
| Swydd wag | Swydd wag |
| Swydd wag | Swydd wag |
| Swydd wag | Swydd wag |

**GRŴP C YR AWDURDOD LLEOL – 6 LLE**

| Sefydliad | Cynrychiolydd presennol |
|---|---|
| Cyngor Bro Morgannwg | Y Cynghorydd Julie Avet |
| Cyngor Bro Morgannwg | Y Cynghorydd Eddie Williams (Cadeirydd hyd at ddiwedd yr hydref 2024) |
| Cyngor Bro Morgannwg | Y Cynghorydd Ewan Goodjohn |
| Cyngor Bro Morgannwg | Y Cynghorydd Rhys Thomas |
| Cyngor Bro Morgannwg | Y Cynghorydd William Hennessy |
| Cyngor Bro Morgannwg | Swydd wag |

**LLEOEDD CYFETHOLEDIG - 4 LLE**

| Sefydliad | Cynrychiolydd presennol |
|---|---|
| Athro | Marged Williams |
| Swydd wag | Swydd wag |
| Swydd wag | Swydd wag |
| Swydd wag | Swydd wag |

**SWYDDOGION**

| | |
|---|---|
| Swyddog Arweiniol yr ALI ar gyfer CYSAG/CYS (Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau) | Trevor Baker |
| Swyddog yr ALI a Chlerc i CYSAG/CYS | Francesca Wright |
| Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/CGM a CYSAG/CYS | Donna Graves |

**ATODIAD 2: CYFARFODYDD CYSAG/CYS BRO MORGANNWG A PHRIF EITEMAU AR YR AGENDA**
**Dydd Mercher 13 Tachwedd 2024 am 3.45pm**
**Lleoliad: cynadledda ar Teams**

| | Eitem Agenda | Person |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)** | **Cadeirydd** |
| **2.** | **Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)**<br>2.1 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd (CYSAG / CYS)<br>2.2 Aelodaeth (CYSAG/CYS) | **Swyddog ALl** |
| **3.** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf - 26/06/2024 (CYSAG/CYS)** | **Cadeirydd** |
| **4.** | **Materion sy'n codi (CYSAG/CYS)** | **Cadeirydd** |
| **5.** | **Adroddiad Blynyddol CYSAG/CYS Bro Morgannwg 2023-2024 (CYSAG/CYS)** | **Cadeirydd** |
| **6.** | **Craffu'r Fro - Diweddariad CGM 2023-2024 (CYS)**<br>Cyflwyniad ar gyfer Pwyllgor Craffu Bro Morgannwg (08/07/2024) | **Ymgynghorydd** |
| **7.** | **Papur Briffio Bro Morgannwg (CYSAG/CYS)** | **Ymgynghorydd** |
| **8.** | **Crynodebau o Arolygon Estyn Bro Morgannwg (CYSAG/CYS)** | **Ymgynghorydd** |
| **9.** | **Canllawiau i Ysgolion ar Ymwelwyr ac Ymweliadau CGM (CYS)** | **Ymgynghorydd** |
| **10.** | **Cymwysterau (CYSAG/CYS)**<br>10.1 TGAU AstC newydd (CYS) (gweler y papur briffio)<br>10.2 TGAU AstC 2023-2024 (CYSAG) (gweler y papur briffio)<br>10.3 Safon Uwch/UG AstC 2023-2024 (CYSAG) (gweler y papur briffio)<br>10.4 Cymwysterau ehangach – AG/CGM statudol (CYS) (gweler y papur briffio)<br>10.5 Cofrestriadau a chanlyniadau TGAU/TAG Astudiaethau Crefyddol haf 2024 – data Cymru gyfan | **Ymgynghorydd** |

<table>
<tr><td>11.</td><td>Llais Ieuenctid (CYSAG/CYS)</td><td>Ymgynghorydd</td></tr>
<tr><td>12.</td><td>CCYSAGauC (CYSAG/CYS)<br>12.1 Adroddiad ar Weithgareddau'r Gymdeithas 2024<br>12.2 Adroddiad Trysorwyr CCYSAGauC 2023-2024<br>12.3 Agenda Hydref 2024<br>12.4 Adnoddau Cynhadledd CCYSAGauC 2024 (gweler y papur briffio)</td><td>Ymgynghorydd</td></tr>
<tr><td>13.</td><td>Bro Morgannwg ar Ganllawiau’r Polisi ar y Weithred Ddyddiol o Gydaddoli i Ysgolion (CYSAG/CYS)</td><td>Ymgynghorydd</td></tr>
<tr><td>14.</td><td>Deunyddiau Ategol ar gyfer Maes Llafur Cytunedig Bro Morgannwg ar gyfer CGM (CYS)</td><td>Ymgynghorydd</td></tr>
<tr><td>15.</td><td>Amserlen cyfarfodydd y dyfodol:
<table>
<tr><th></th><th>Dyddiad</th><th>Lleoliad</th><th>Amser</th></tr>
<tr><td>Y Gwanwyn 2025</td><td>I’w gadarnhau</td><td>I’w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr>
<tr><td>Yr Haf 2025</td><td>I’w gadarnhau</td><td>I’w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr>
<tr><td>Yr Hydref 2025</td><td>I’w gadarnhau</td><td>I’w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr>
</table></td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>16.</td><td>Awgrymiadau ar gyfer eitemau agenda ar gyfer cyfarfod Gwanwyn 2025 (CYSAG/CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>17.</td><td>Argymhellion/awgrymiadau i’r ALl?</td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>18.</td><td>Unrhyw Fater Arall (CYSAG/CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
</table>

**Dydd Mercher 26 Mawrth 2024 am 4:00pm**
**Lleoliad: cynadledda ar Teams**

| | Eitem Agenda | Person |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)** | **Cadeirydd** |
| **2.** | **CYSAG/CYS**<br>2.1 Diweddariad ar yr aelodaeth ac ehangu'r aelodaeth | **Swyddog ALl** |
| **3.** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf - 13/11/2024 (CYSAG/CYS)** | **Cadeirydd** |
| **4.** | **Materion sy'n codi (CYSAG/CYS)** | **Cadeirydd** |
| **5.** | **Yr Eglwys yng Nghymru - arolygiadau adran 50 (CYSAG/CYS)** | **B. Morteo** |
| **6.** | **Papur Briffio Bro Morgannwg (CYSAG/CYS)**<br>6.1 Papur briffio'r gwanwyn<br>6.2 Adborth gan Benaethiaid am y papur briffio ac adnoddau | **6.1 Ymgynghorydd**<br>**6.2 Swyddog yr ALl** |
| **7.** | **Crynodebau o Arolygon Estyn Bro Morgannwg (CYSAG/CYS)** | **Ymgynghorydd** |
| **8.** | **Cymwysterau (CYSAG/CYS)**<br>8.1 TGAU AstC newydd (CYS) (gweler y papur briffio; eitem 6.1)<br>8.2 Cymwysterau ehangach – AG/CGM statudol (CYS) (gweler y papur briffio; eitem 6.1)<br>8.3 Arolwg i ysgolion ar ddarpariaeth AG/CGM/AstC Blynyddoedd 10 ac 11 | **Ymgynghorydd** |
| **9.** | **CCYSAGauC (CYSAG/CYS)**<br>**9.1 Cyfarfod gwanwyn CCYSAGauC 6 Mawrth 2025 - diweddariad**<br>9.1a Costau Cynhadledd CCYSAGauC<br>9.1b Llythyr oddi wrth Philip Blaker (Cymwysterau Cymru) ynglŷn ag Astudiaethau Crefyddol TGAU (Cym/Eng)<br>9.1c Ymchwil gan Miller ac Adnodd i sut mae addysgwyr a dysgwyr yn defnyddio Hwb | **Cadeirydd** |

<table>
<tr><td></td><td>9.1d Cyflwyniad PYCAG ar adolygiad o Ganllawiau Adroddiad Blynyddol CYSAG<br>9.2 cofnodion drafft CCYSAGauC hydref 2024<br>9.3 Enwebai Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC<br>9.4 Arolwg Llais yr Athro<br>9.5 Cod ymddygiad (drafft)<br>9.6 Adnodd CGM ar Hwb i Lywodraethwyr</td><td></td></tr>
<tr><td>10.</td><td>Adnoddau CYSAG/CYS a mynediad i'r wefan (CYSAG/CYS)<br>10.1 Polisi CAD Generig CYSAG/CYS Bro Morgannwg (CYSAG/CYS/)<br>10.2 Deunyddiau Ategol Bro Morgannwg ar gyfer Maes Llafur Cytunedig CGM Bro Morgannwg (CYS)<br>10.3 Canllawiau Bro Morgannwg ar ymweliadau/ymwelwyr a siaradwyr gwadd CGM (CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>11.</td><td>Diweddariad Llais Ieuenctid (CYSAG/CYS)</td><td>Ymgynghorydd</td></tr>
<tr><td>12.</td><td>Amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol (CYSAG/CYS)
<table>
<tr><th></th><th>Dyddiad</th><th>Lleoliad</th><th>Amser</th></tr>
<tr><td>Yr Haf 2025</td><td>18 Mehefin 2025</td><td>Ysgol Gynradd Cogan/ Hybrid</td><td>4:00pm</td></tr>
<tr><td>Yr Hydref 2025</td><td>12 Tachwedd 2025</td><td>Ar-lein</td><td>4:00pm</td></tr>
</table></td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>13.</td><td>Awgrymiadau ar gyfer eitemau agenda ar gyfer cyfarfod Gwanwyn 2025 (CYSAG/CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>14.</td><td>Argymhellion/awgrymiadau i’r ALl?</td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>15.</td><td>Unrhyw Fater Arall (CYSAG/CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
</table>

**Dydd Mercher 18 Mehefin 2025 am 4:00pm**

**Lleoliad: Ysgol Gynradd Cogan; Hybrid (Teams)**

| | Eitem Agenda | Person |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso ac ymddiheuriadau** (CYSAG/CYS) | **Cadeirydd** |
| **2.** | **CYSAG/CYS**<br>Newyddion am Aelodau | **Cadeirydd** |
| **3.** | **Cofnodion** (CYSAG/CYS)<br>Dydd Mercher 26 Mawrth 2025 am 4:00pm - cofnodion | **Cadeirydd** |
| **4.** | **Materion sy'n codi** (CYSAG/CYS) | **Cadeirydd** |
| **5.** | **Cyflwyniad CGM Ysgol Gynradd Cogan** (CYS) | **Cadeirydd** |
| **6.** | **Papur Briffio Haf Bro Morgannwg** (CYSAG/CYS) | **Ymgynghorydd** |
| **7.** | **Monitro CGM/AG/AstC a CAD** (CYSAG/CYS)<br>7.1 Crynodebau o Arolygon Estyn Bro Morgannwg (CYSAG/CYS)<br>7.2 Arolygon o CGM nad ydynt yn rhai Adran 50 – sut mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg yn mynd i gyfrannu at fonitro CGM/AG | **Ymgynghorydd**<br><br>**Cadeirydd** |
| **8.** | **Cymwysterau (CYSAG/CYS)**<br>8.1 Gweler yr eitem.<br>8.2 Arolwg CYSAG/CYS Bro Morgannwg ar gyfer Blynyddoedd 10/11 | **Ymgynghorydd**<br>**Swyddog ALl** |
| **9.** | **CCYSAGauC** (CYSAG/CYS)<br>9.1 Cofnodion CCYSAGauC 6 Mawrth 2025<br>9.2 Enwebai Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC<br>9.3 Llythyr CCYSAGauC at Lyn Neagle 28-4-25<br>9.4 Agenda CCYSAGauC 2 Gorffennaf 2025 a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol | **Cadeirydd** |
| **10.** | **Llais Ieuenctid ar gyfer CGM/AG/AstC a CAD (CYSAG/CYS)**<br>10.1 Logo<br>10.2 Cyflwyno’r enillydd<br>10.3 Fideo logo Oscar | |

<table>
<tr><td>11.</td><td>CYSAG/CYS wrth Symud Ymlaen<br>11.1 Cynllun Gweithredu Drafft (CYSAG/CYS)<br>11.2 Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg 2024-2025 a thu hwnt<br>11.3 Syniadau ar gyfer y dyfodol ar gyfer CYSAG/CYS Bro Morgannwg<br>– Dathlu CGM/AG/AstC yn y Fro</td><td>Ymgynghorydd<br>Swyddog All<br>Swyddog ALl</td></tr>
<tr><td>12.</td><td>Amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol (CYSAG/CYS)
<table>
<tr><td></td><td>Dyddiad</td><td>Lleoliad</td><td>Amser</td></tr>
<tr><td>Yr Hydref 2025</td><td>12/11/2025</td><td>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr</td><td>4:00pm</td></tr>
<tr><td>Y Gwanwyn 2026</td><td>I’w gadarnhau</td><td>I’w gadarnhau</td><td>4:00pm</td></tr>
<tr><td>Yr Haf 2026</td><td>I’w gadarnhau</td><td>I’w gadarnhau</td><td>4:00pm</td></tr>
</table></td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>13.</td><td>Awgrymiadau ar gyfer eitemau agenda ar gyfer cyfarfod Hydref 2025 (CYSAG/CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>14.</td><td>Argymhellion/awgrymiadau i'r Awdurdod Lleol (CYSAG/CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
<tr><td>15.</td><td>Unrhyw Fater Arall (CYSAG/CYS)</td><td>Cadeirydd</td></tr>
</table>

## ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

Bydd copïau o'r adroddiad blynyddol hwn yn cael eu hanfon yn electronig i'r cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefannau'r awdurdod lleol a CCYSAGauC i bartïon â diddordeb eu lawrlwytho.

Rhestr o Sefydliadau y mae'r adroddiad hwn yn cael ei anfon atynt:

- Aelodau CYSAG/CYS Bro Morgannwg
- Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg
- Pob ysgol/lleoliad ym Mro Morgannwg
- Cymdeithas CYSAGau/CYSau Cymru (CCYSAGauC)
- Llywodraeth Cymru
- Y Llyfrgell Genedlaethol
- Consortiwm Canolbarth y De
- Estyn.

Bydd y ddogfen hon ar gael ar wefan Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC) i unrhyw unigolion neu sefydliadau eraill sydd â diddordeb.

## ATODIAD 4: CYLCH GORCHWYL CYSAG/CYS BRO MORGANNWG

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

### Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
### Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Diwygiwyd i gyd-fynd â gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru o flwyddyn ysgol 2022-2023 ymlaen.
(Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cabinet ar y 16 Tachwedd 2024)

Mae'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) ym Mro Morgannwg wedi'i sefydlu yn unol ag adrannau 390-397 o Ddeddf Addysg 1996 a chanllawiau a geir yng Nghylchlythyr 10/94 Cymru fel y'u diweddarwyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ym Mro Morgannwg wedi'i sefydlu yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (gweler Atodiad 1).

**CYFANSODDIAD A RHEOLAU SEFYDLOG**

**<u>Cylch Gorchwyl</u>**

1. Cynghori'r ALl ar faterion sy'n gysylltiedig â chydaddoli mewn ysgolion sirol.

2. Cynghori'r ALl ar faterion sy'n gysylltiedig â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Grefyddol a wneir yn unol â'r maes llafur cytunedig.

3. Penderfynu pryd, o fewn y raddfa amser statudol o bum mlynedd, y dylai'r ALl adolygu ei faes llafur cytunedig.

4. Ystyried gyda'r ALl a Chynhadledd y Maes Llafur Cytunedig unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r maes llafur cytunedig.

5. Ystyried gyda'r ALl y gefnogaeth a gynigir i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu Addysg Grefyddol yn ei ysgolion, gan roi sylw arbennig i ddulliau addysgu, y dewis o ddeunyddiau addysgu a darparu hyfforddiant i athrawon.

6. Cynnig cyngor ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'i swyddogaeth fel y bo’n briodol.

7. Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith, a ddylai:

   a. bennu unrhyw faterion y mae wedi cynghori'r ALl arnynt;
   b. disgrifio yn fras natur y cyngor;
   c. nodi ei resymau dros gynnig cyngor ar unrhyw faterion na chyfeiriwyd atynt yn y lle cyntaf gan yr ALl a
   d. chofnodi aelodaeth CYS/CYSAG a dyddiadau cyfarfodydd a gynhelir.

8. Cymryd rhan yng ngweithdrefnau cwyno statudol yr ALl yn yr achosion hynny lle mae'r cwynion yn ymwneud â chrefydd, gwerthoedd a moeseg neu addysg grefyddol a/neu gydaddoli.

9. Derbyn a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau gan benaethiaid ysgolion sirol ar gyfer codi neu addasu'r gofynion bod yn rhaid i gydaddoli mewn ysgolion o'r fath fod yn Gristnogol yn gyfan gwbl neu'n bennaf.

**<u>Cyfansoddiad CYS/CYSAG ym Mro Morgannwg</u>**

10. Bydd CYS/CYSAG yn cynnwys tri grŵp sy'n cynrychioli:

    a. Y fath enwadau Cristnogol a chrefyddol eraill sydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu'n briodol y traddodiadau crefyddol yn yr ardal a hefyd personau o'r fath sy'n cynrychioli deiliaid credoau athronyddol di-grefydd yn yr un modd ag y maent yn caniatáu penodi unigolion sy'n cynrychioli deiliaid credoau crefyddol; (adran 390(4)(a) o, a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 i Ddeddf 1996) ac yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021)

       Mae'r penderfyniad terfynol am benodiad gyda CYS/ CYSAG, gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan y CYS/CYSAG yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn iawn.

    b. Y fath gymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon a ddylai, ym marn yr Awdurdod Lleol, gael eu cynrychioli gan roi sylw i amgylchiadau'r ardal.

    c. Yr Awdurdod Lleol.

11. Gall y cyngor hefyd gynnwys aelodau cyfetholedig.

12. Mae CYS/CYSAG Bro Morgannwg wedi cytuno ar yr aelodaeth ganlynol:

CYNRYCHIOLWYR O DRADDODIADAU CREFYDDOL, ENWADAU A DEILIAID CREDOAU ATHRONYDDOL DI-GREFYDD.

ER MWYN CYNYDDU EFFEITHLONRWYDD Y CYS/CYSAG, CEISIR AELODAU O YSTOD EANG O DRADDODIADAU CREFYDDOL A CHEISIR HEFYD AELODAU SY'N CYNRYCHIOLI DEILIAID CREDOAU ATHRONYDDOL DI-GREFYDD A ALL FOD YN UNIONGYRCHOL BRESENNOL YM MRO MORGANNWG AR UNRHYW ADEG.

Deuddeg lle o ystod o grefyddau, enwadau ac o argyhoeddiadau athronyddol di-grefydd, a allai gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Yr Eglwys yng Nghymru
- Yr Eglwys Gatholig
- Eglwysi Rhyddion
- Ffydd Bahâ'í
- Bwdhaeth

- Hindŵaeth
- Islam
- Iddewiaeth
- Siciaeth
- Dyneiddiaeth

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON**

Wyth lle o ystod o gymdeithasau athrawon. Rhaid i'r cynrychiolydd athrawon fod yn cael ei gyflogi ac yn gweithio mewn ysgol ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd.

**Yr ALl**

Chwech aelod yn cynrychioli'r awdurdod lleol.

**AELODAU CYFETHOLEDIG (HEB UNRHYW HAWLIAU PLEIDLEISIO)**

Hyd at bedwar aelod sydd â diddordeb mewn addysg grefyddol/crefyddau, gwerthoedd a moeseg a chydaddoli ac sy'n gallu cynorthwyo'r pwyllgor wrth gyflawni ei swyddogaethau.

11. Bydd aelodaeth CYS/CYSAG Bro Morgannwg am gyfnod o bedair blynedd. Gellir ailbenodi unrhyw aelodau sy'n gadael.

12. Mae aelodaeth CYS/CYSAG yn amodol ar yr amod bod yr ALl wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei hun bod y personau a benodwyd yn gynrychioliadol, fel y bo'n briodol, o'r enwadau, y cymdeithasau neu'r grŵp argyhoeddiadau athronyddol di-grefydd dan sylw.

13. Rhaid i aelodau sy'n cynrychioli cymdeithasau athrawon gynnwys athrawon crefydd, gwerthoedd a moeseg a/neu addysg grefyddol.

14. Gall unigolion gael eu tynnu oddi ar CYS/CYSAG Bro Morgannwg os ydynt yn rhoi'r gorau i gynrychioli'r enwad, y gymdeithas, y grŵp argyhoeddiadau athronyddol di-grefydd neu'r Awdurdod y cawsant eu penodi i'w gynrychioli.

15. Gall unrhyw aelod o CYS/CYSAG Bro Morgannwg ymddiswyddo ar unrhyw adeg.

16. Bydd unrhyw aelod sy'n methu mynychu tri chyfarfod yn olynol heb ymddiheuriad yn rhoi'r gorau i fod yn aelod. Ni fydd unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso fel hyn yn cael ei wahardd rhag cael ei ailbenodi gan y corff enwebu priodol.

**<u>Trafodion ar gyfer cyfarfodydd CYS/CYSAG ym Mro Morgannwg</u>**

17. Bydd yr ALl yn penodi clerc i CYSAG/CYS.

18. Bydd CYS/CYSAG yn cyfarfod **<u>dim</u>** llai nag unwaith ym mhob tymor ysgol.

19. Bydd CYS/CYSAG yn ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o'i aelodaeth yn y cyfarfod cyntaf ym mhob blwyddyn academaidd. Ni fydd y cadeirydd na'r is-gadeirydd mewn unrhyw flwyddyn yn dod o'r un grŵp cynrychioliadol. Gellir ailbenodi cadeirydd sy'n gadael.

20. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol o gyfarfod, penodir person i gymryd y Gadair ar gyfer y cyfarfod ar gydsyniad yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod. Os bydd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn cyrraedd yn ystod gweddill y cyfarfod, bydd yr eilydd penodedig yn trosglwyddo iddynt cyn gynted ag y bydd yr hyn sy'n cael ei drafod ar ôl iddynt gyrraedd yn cael ei gwblhau.

21. Ar unrhyw gwestiwn i'w benderfynu gan y CYS/CYSAG, dim ond y grwpiau cynrychioliadol ar y CYS/CYSAG fydd â hawl i bleidleisio a bydd gan bob grŵp un bleidlais. Cyn i bleidlais ffurfiol gael ei chynnal bydd cyfle yn cael ei roi i bob grŵp cynrychioliadol benderfynu sut i bleidleisio.

22. Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio.

23. Bydd yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn cael ei phennu gan y cadeirydd neu'r is-gadeirydd mewn ymgynghoriad â chlerc CYS/CYSAG a Swyddog Proffesiynol Awdurdodau Lleol. Bydd gan unrhyw aelod sy’n pleidleisio o CYS/CYSAG hawl i gynnig eitemau ar gyfer agenda o leiaf ugain diwrnod gwaith cyn unrhyw gyfarfod. Dim ond eitemau ar yr agenda y gellir eu hystyried mewn unrhyw gyfarfod ac eithrio yn ôl disgresiwn y cadeirydd.

24. Gall y CYSAG/CYS, os yw'n dymuno, drefnu presenoldeb mewn cyfarfod siaradwr arbenigol nad yw'n aelod o'r CYSAG/CYS.

25. Efallai y bydd angen i bob un neu unrhyw un o'r grwpiau cynrychioliadol drefnu presenoldeb siaradwr arbenigol nad yw'n aelod o'r CYSAG/CYS, ond dim ond am y cyfnod pan fydd unrhyw fater perthnasol yn cael ei ystyried ac ar yr amod bod o leiaf deg diwrnod gwaith o rybudd o ofyniad o'r fath yn cael ei roi i'r Clerc i'w gynnwys yn agenda'r cyfarfod.

26. Yn achos unrhyw aelod nad yw'n gallu mynychu cyfarfod CYS/CYSAG, gellir enwebu dirprwy gan y corff y mae'r person hwnnw'n ei gynrychioli, ar yr amod bod yr eilydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a bod Cyfarwyddiaeth Addysg yr Awdurdod Lleol a chlerc y CYS/CYSAG yn cael ei hysbysu cyn y cyfarfod.

27. Ystyrir bod cyfarfod o CYS/CYSAG Bro Morgannwg yn cael ei ystyried yn gworwm os yw o leiaf un aelod o bob un o'r tri grŵp cynrychioliadol yn bresennol. Ni fydd dilysrwydd trafodion CYS/CYSAG yn cael ei effeithio gan swydd wag yn swyddfa unrhyw aelod o CYS/CYSAG Bro Morgannwg.

28. Caiff y grwpiau cynrychioliadol ar CYS/CYSAG Bro Morgannwg, ac eithrio’r rhai sy'n cynrychioli'r Awdurdod Lleol, alw, ar unrhyw adeg, am adolygiad o'r maes llafur cytunedig presennol yn yr Awdurdod. Ar y fath adeg bydd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn cael ei chyfansoddi a'i chynnal.

29. Bydd CYS/CYSAG Bro Morgannwg yn ystyried ei adroddiad blynyddol yn y cyfarfod cyntaf i'w gynnal ym mhob blwyddyn academaidd. Ar ôl i'r Cyngor gadarnhau'r adroddiad, bydd yn mynd rhagddo i'w gyhoeddi.

30. Bydd Clerc CYS/CYSAG yn trefnu bod copïau o'r adroddiad blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Bro Morgannwg, yn cael eu hanfon i bob ysgol yn yr Awdurdod, i AdAS, y Llyfrgell Genedlaethol ac at y fath unigolion a sefydliadau eraill sy’n briodol ym marn yr Awdurdod Lleol.

**YCHWANEGIAD 1**

**Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Bydd cyfansoddiad, swyddogaethau a threfniadau gwaith CYS Bro Morgannwg yn dilyn rhai CYSAG Bro Morgannwg, fel y nodir uchod. Bydd y ddau bwyllgor yn cydfodoli tan 2025 ac er effeithlonrwydd a chywirdeb y ddau bwyllgor, cynhelir cyfarfodydd ar yr un pryd, gyda'r holl fusnes yn cael ei drin fel sy'n briodol i bob pwyllgor. Bydd y trefniadau hyn yn parhau nes bod y Cwricwlwm i Gymru wedi'i weithredu i bob grŵp blwyddyn perthnasol, ac ar yr adeg honno bydd CYSAG Bro Morgannwg yn cael ei ddiddymu a bydd CYS Bro Morgannwg yn parhau.

**ATODIAD 5: CYFLEOEDD DYSGU PROFFESIYNOL AC ADNODDAU**

Mae GACCCD wedi cynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob ymarferydd yn y rhanbarth, yn canolbwyntio ar rannu arferion a grymuso athrawon. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi gwybodaeth am agweddau ar gynnig dysgu proffesiynol GACCCD sy'n berthnasol i AG/CGM/CAD. Mae'r rhain wedi bod ar gael i ysgolion/lleoliadau Bro Morgannwg.

**Adnoddau dysgu proffesiynol wedi'u cynhyrchu gan GACCCD**

- Mae Ardal Cymuned Dyniaethau Cynradd GACCCD yn rhannu amrywiaeth o gyhoeddiadau a ffeiliau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru

- Dyniaethau Uwchradd GACCCD: Mae Ardal Cymuned CGM yn rhannu amrywiaeth o gyhoeddiadau a ffeiliau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru, Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol

- Mae Banc Gwybodaeth GACCCD yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ar CGM ar gyfer ymarferwyr

- Ymholi a Dehongli yn y Dyniaethau. Mae adnodd rhestr chwarae bellach ar gael yma i gefnogi ymarferwyr i ddeall a datblygu sgiliau ymholi a dehongli yn y dyniaethau, gyda thudalennau penodol ar gyfer CGM yn ogystal â'r pedwar pwnc arall yn y Dyniaethau.

- Rhestr chwarae argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yma

- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM): Adnodd Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol.

- Y Weithred Ddyddiol o Gydaddoli (CAD): Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol

- CGM ac Athroniaeth i Blant ('AiB') a ariennir – astudiaethau achos, adnodd newydd

- Prosiect 'CGM Gwrthrychol, Beirniadol a Phlwraliaethol' a ariennir, ynghyd â'r Eglwys yng Nghymru, astudiaethau achos, adnodd newydd - dolen

- CGM a Gwyddoniaeth – astudiaethau achos prosiect a ariennir

- Astudiaethau achos CGM

- Adnoddau CGM, Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth – cynradd; uwchradd

- Mapio a dilyniant mewn CGM – cynradd; uwchradd

- Dyniaethau Digidol - Astudiaethau Achos GACCCD ar gyfer y prosiect a ariennir – dolen

- Posteri cwricwlwm CGM i ymarferwyr, yr uwch dîm arwain a llywodraethwyr:

    - CGM: Beth sydd wedi newid?
    - CGM: Beth sydd HEB newid?
    - CGM yn y CiG.

**Rhaglenni a digwyddiadau dysgu proffesiynol GACCCD**

- Arwain Meysydd Dysgu a Phrofiad a Phynciau yn Effeithiol - dydd Gwener 8 Tachwedd, diwrnod 1 (gorfodol i bob mynychwr) a dydd Iau 21 Tachwedd 2024 ar gyfer arweinwyr y Dyniaethau, gan gynnwys arweinwyr CGM.

- Dylunio cwricwlwm yn y Dyniaethau - Dydd Mawrth 24 Medi 2024 (cynradd), dydd Mawrth 12 Tachwedd 2024 (uwchradd) a dydd Mercher 22 Ionawr 2025 (cynradd)

- Amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn y Dyniaethau - Dydd Iau 19 Medi 2024

- Addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn y Dyniaethau - Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024

- Archwilio ymholi athronyddol mewn CGM (AiB) - Dydd Mercher 9 Hydref 2024

- Dylunio cwricwlwm yn y Dyniaethau - diwrnod cyfan, wyneb yn wyneb, dydd Mercher 22 Ionawr 2025 (cynradd)

- Amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn y Dyniaethau - diwrnod cyfan, wyneb yn wyneb, dydd Mercher 8 Ionawr 2025

- RVE Dilys, Pwrpasol a Diddorol - diwrnod cyfan, wyneb yn wyneb, 4 Chwefror 2025 (Cynradd)

- Deall credoau athronyddol anghrefyddol; gweminar Sentientiaeth ar-lein awr o hyd ar Teams, 3.30pm-4.30pm (pob ymarferydd CGM/AG/AstC)

- Mynd i'r Afael ag Islamoffobia – Cyfarfod Rhwydwaith Rhanbarthol BAME, gweminar awr o hyd ar Teams, dydd Mawrth 11 Mawrth 2025, 3.00pm-4.00pm

- Dylunio Cwricwlwm Dyniaethau Ysgolion Cynradd – Ffocws 'CGM' – 21 Mai 2025, 9:00-15:00, wyneb yn wyneb.

**Darparwyd ddiweddariadau ar CGM/AstC/AG mewn Sesiynau Briffio GACCCD ar Teams**

- CGM: Sesiynau briffio i athrawon ac arweinwyr, tymor y gwanwyn 2025, dydd Iau, 13 Chwefror 2025 15:00 - 15:45.

**Cyfarfodydd rhwydwaith GACCCD**

- Cyfarfod rhwydwaith Dyniaethau Cynradd – tymor yr hydref, dydd Mercher, 23 Hydref 2024 15:00 - 16:30, ar-lein
- Cyfarfod rhwydwaith Dyniaethau Cynradd – tymor yr gwanwyn, dydd Mercher, 29 Ionawr 2025 15:00 - 16:30, ar-lein
- Cyfarfod rhwydwaith CGM, AG ac AstC Uwchradd – tymor yr hydref, dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2024 15:00 - 16:30, ar-lein
- Cyfarfod rhwydwaith CGM, AG ac AstC Uwchradd – tymor y gwanwyn, dydd Mawrth 4 Mawrth 2025 15:00 – 16:30, ar-lein
- Rhwydwaith Astudiaethau Crefyddol TGAU – tymor yr haf, dydd Llun, 23 Mehefin 2025 09:00 - 15:00, wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Arloesi'r Cymoedd, Abercynon

- Rhwydwaith y Dyniaethau ar gyfer ysgolion arbennig/PRUs – tymor yr hydref, dydd Iau, 26 Medi 2024 15:00 - 16:30, ar-lein
- Rhwydwaith y Dyniaethau ar gyfer ysgolion arbennig/PRUs – tymor y gwanwyn, dydd Mercher, 12 Chwefror 2025 15:00 - 16:30, ar-lein.

**Sesiynau galw heibio GACCCD** – yn cynnig slot 30mun-1 awr i drafod cwricwlwm CGM/dyniaethau ysgol benodol

- Sesiynau galw heibio y dyniaethau (gan gynnwys CGM) – 25 Tachwedd 2024, 11 Rhagfyr 2024, 13 Ionawr 2025 a 10 Mawrth 2025

- Sesiynau Galw Heibio CAD 11 Chwefror 2025.

**Prosiectau dysgu proffesiynol a ariennir gan GACCCD**

Y prosiect dyniaethau/CGM a ariannwyd ar gyfer 2024-2025 (blwyddyn ariannol) oedd 'Addysgu a Dysgu yn y Dyniaethau'. Cymerodd chwe ysgol ar draws y rhanbarth ran, ac un ysgol arbennig o Fro Morgannwg.

**Mae GACCCD yn rhannu adnoddau a deunyddiau dysgu proffesiynol eraill gan gynnwys**

- Maes Llafur Cytunedig Bro Morgannwg a deunyddiau ategol

- Cwrs dysgu proffesiynol CGM ar Hwb
    - Modiwl un: Blynyddoedd cynnar
    - Modiwl dau: Cynradd
    - Modiwl tri: Uwchradd
    - Modiwl pedwar: Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
    - Modiwl pump: Penaethiaid
    - Modiwl chwech: Llywodraethwyr
- Sentientiaeth – byd-olwg
- Gwefan Addysg yr Eglwys yng Nghymru
- Y Gwasanaeth Addysg Gatholig – Cymru
- Cyfnodolyn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch 'am ddim'
- Adnoddau AG/CGM/AstC am ddim gan Ganolfan San Silyn
- Canolfan Ddiwylliannol Iddewig Cymru – Merthyr Tudful - 'addysg'
- Deall Dyneiddiaeth – gwefan ymarferwyr ar Ddyneiddiaeth yn y DU. Mae llawer o adnoddau bellach wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

- Data credoau/crefydd/byd-olwg Bro Morgannwg o Gyfrifiad 2021
- Ysgol Gynradd Creigiau: Cynllunio ein cwricwlwm CGM
- Gwybodaeth, adnoddau a gweminarau Diwrnod Cofio'r Holocost; Diwrnod Cofio'r Holocost – 2 Ionawr 2025
- Cylchlythyrau, gwybodaeth ac adnoddau CBAC
- Deunyddiau o gynhadledd CCYSAGauC 2024, gan gynnwys seminarau ar-lein
    - Cynhadledd CCYSAGauC 2024 – Recordiadau ar alw

    1. Lleisiau'r gynhadledd: Cynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024 Cynrychiolwyr yn rhannu eu profiadau yng Nghynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC ym Mhrifysgol Wrecsam ar 13 Mehefin 2024.
    2. Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle, (Cynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024) Lynne Neagle AS yn siarad yng Nghynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024, Prifysgol Wrecsam.
    3. Ffilm o ddiwrnod y Gynhadledd: Cynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024 Recordiadau o Gynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC ar 13 Mehefin 2024 ym Mhrifysgol Wrecsam.
    4. Yr Athro Graham Donaldson – 'The Values Imperative' ac arwyddocâd CGM yn y Cwricwlwm i Gymru  Yng Nghynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC (13 Mehefin 2024) siaradodd yr Athro Graham Donaldson am yr heriau sy'n wynebu addysg a phobl ifanc heddiw, a pham mae'r Cwricwlwm i Gymru a CGM mor bwysig.
    5. Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Mary Stallard – Arwyddocâd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) i bobl ifanc yng Nghymru Yng Nghynhadledd CGM Genedlaethol CCYSAGauC (13 Mehefin 2024), siaradodd y Gwir Barchedig Mary Stallard, Esgob Llandaf am arwyddocâd CGM i bobl ifanc yng Nghymru.
    6. Ffilm newydd a grëwyd yn arbennig i CCYSAGauC gan FreshGecko Productions, ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.  Mae'r ffilm fer hon yn hyrwyddo gwerth CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, ac mae wedi'i hanelu at bobl ifanc, ysgolion a lleoliadau, rhieni/gwarcheidwaid, ac eraill sydd â diddordeb mewn CGM.

- Adnoddau CCYSAGauC a chyngor ar AG/CGM/AstC a CAD
- Adnoddau dysgu ac addysgu am ddim gan NATRE
- Gwybodaeth ac adnoddau ar Hwb
- Rhaglenni dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru, podlediadau ac e-gylchgrawn CGM

- Adnoddau a phosteri o fanc gwybodaeth GACCCD ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, y dyniaethau a'r Cwricwlwm i Gymru e.e. cynnydd yn y dyniaethau, mapiau cynnydd y dyniaethau a pholisi cwricwlwm enghreifftiol

- Deunyddiau Estyn e.e. adroddiad thematig Estyn - dulliau effeithiol o asesu sy'n gwella dysgu ac addysgu

- Rhannwyd manylion y prosiect 'Gwersi o Auschwitz' gydag ysgolion

- Gwybodaeth am Ganolfan Dreftadaeth Iddewon Cymreig ym Merthyr Tudful

- Adnoddau addysgu gan Humanism UK – Deall y Dyniaethau – gwefan ymarferwyr ar Ddyneiddiaeth yn y DU. Mae llawer o adnoddau bellach wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

- DARPL – cyfleoedd dysgu proffesiynol ac adnoddau

- Podlediadau

- Darganfod Mwslimiaid ym Mhrydain – adnoddau e.e. 'Gofyn i Fwslim' a'r prosiect 'Stori Islam yng Nghymru' gan y Ganolfan Astudiaethau Islam yn y DU

- Adnodd 'Hanes Crefydd yng Nghymru'

- Adnoddau a dolen i wefan Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru i gefnogi CGM

- Wythnos Rhyng-ffydd / Wythnos Rhyng-gred – 10-17 Tachwedd 2024

- Adnoddau'r Holocost yng Nghymru – mae'r holl adnoddau gwreiddiol wedi'u diwygio i weddu i'r Cwricwlwm i Gymru ac maent bellach ar gael ar-lein ar Gasgliad y Werin Cymru ac ar Hwb, gan Gymdeithas Hanes Iddewig De Cymru.

**Adnoddau GACCCD ar gyfer y weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD)**

- Y Weithred Ddyddiol o Gydaddoli (CAD): Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol

- Adnodd GACCCD, 'Dolenni i Adnoddau CAD', 2024

## Adnoddau CYSAG/CYS Bro Morgannwg ar gyfer y weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD)

- Y Weithred Ddyddiol o Gydaddoli (CAD) – Canllawiau a Pholisi Enghreifftiol CYSAG/CYS Bro Morgannwg.

**Adnoddau cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru (CiG) a gyhoeddwyd gan GACCCD**

- Mae rubrics sgiliau trawsgwricwlaidd a Chymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi'u datblygu mewn cydweithrediad ag ysgolion yn y rhanbarth i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau mewn lleoliadau prif ffrwd ar gyfer y meysydd pwysig hyn. Dyma'r dolenni:

  - Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Sgiliau mewn Ysgolion - Llythrennedd
  - Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Sgiliau mewn Ysgolion - Cymraeg mewn Ysgolion Cynradd cyfrwng Saesneg
  - Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Sgiliau mewn Ysgolion - Cymraeg mewn Ysgolion Uwchradd cyfrwng Saesneg
  - Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Sgiliau mewn Ysgolion - Rhifedd
  - Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Sgiliau mewn Ysgolion - Cymhwysedd Digidol.